

# Crynodeb o Fforwm Cyngori'r DU 15 Mai 2024

## Yn Bresennol:

Y Fonesig Carrie MacEwen, Cadeirydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) (**Cadeirydd**)  
Abubakar (Abu) Askira, Cyfarwyddwr Strategaeth ac Ymgysylltu, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

Charlie Massey, Prif Weithredwr, y GMC

Yr Athro Ffion Williams, Pennaeth Mynediad Graddedigion ar gyfer Meddygaeth, Prifysgol Abertawe

Syr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru

Gethin Matthews-Jones, Pennaeth Cyngor Meddygol Cyffredinol Cymru, y GMC

Dr Jacinta (Jaz) Abraham, Cyfarwyddwr Meddygol, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac arweinydd FMLM Cymru

Joshua Lovell, Swyddog Polisi a Materion Allanol, y GMC (**Nodiadau**)

Katie Laugharne, Cyngorydd Cyswllt Cyflogwyr, y GMC

Yr Athro Keshav Singhal, Cadeirydd, Cymdeithas Prydain ar gyfer Meddygon o Dras Indiaidd (BAPIO) Cymru

Maria Chatters, Cyngorydd Cyswllt Rhanbarthol, y GMC

Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau, y GMC

Dr Oba Babs-Osibodu, Cyd-gadeirydd, Pwyllgor Meddygon Iau Cymru (WJDC) Cymdeithas Feddygol Prydain

Patrycja Jakrzebska, Swyddog Polisi ac Allanol, y GMC (Arsylwr)

Dr Peter Fahey, Cyd-gadeirydd, Pwyllgor Meddygon Iau Cymru (WJDC) Cymdeithas Feddygol Prydain, yn gweithredu fel cynrychiolydd i Gyngor Cymreig Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA)

Yr Athro Push Mangat, Cyfarwyddwr Meddygol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Yr Athro Rhian Goodfellow, Cadeirydd Personol a Chyfarwyddwr C21, Ysgol Meddygaeth, Prifysgol Caerdydd

Robert Khan, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Swyddfeydd Cenedlaethol, y GMC

Dr Ruth Alcolado, Cyfarwyddwr Meddygol, Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG (NHSSSP)

Steve Burnett, Aelod o'r Cyngor, y GMC

Yr Athro Tom Lawson, Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

## Croeso a chyflwyniad y Cadeirydd – Carrie MacEwen

1. Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod ac yna cawsant eu cyflwyno.
2. Diolchodd y Cadeirydd i Syr Frank Atherton am ei bresenoldeb a'i gefnogaeth i UKAF yn ystod ei gyfnod fel y Prif Swyddog Meddygol.

## Camau gweithredu o gyfarfod blaenorol Fforwm Cyngori'r DU (UKAF)

3. Rhoddodd Gethin Matthews-Jones, Pennaeth Cyngor Meddygol Cyffredinol Cymru, ddiweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023. Amlinellodd waith GMC Cymru mewn perthynas â'r canlynol:
  - Hyrwyddo dealltwriaeth o rôl a phrosesau'r GMC.
  - Gweithio gyda rheoleiddwyr y system a Llywodraeth Cymru i gefnogi llywodraethu clinigol rhagorol.
  - Cam gweithredu i ymateb i Iona Collins, Cadeirydd Cymreig y BMA, a gododd nifer o gwestiynau penodol yng nghyfarfod diwethaf yr UKAF.
  - Rhannu manylion ein hymgyngoriad ar sut byddwn ni'n rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia.
  - Tynnu sylw at yr angen i ofalu bod gan hyfforddwyr ddigon o amser i gyflawni eu cyfrifoldebau craidd i unigolion dan hyfforddiant.

## Diweddariad gan y Prif Weithredwr

4. Dechreuodd Charlie Massey drwy ddiolch i'r Aelodau am fod yn bresennol. Cyfeiriodd at gyfarfod cynharach y bore, a gynhaliwyd cyn yr UKAF, gyda'r Farwnes Eluned Morgan, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nododd fod y gweithlu ar yr agenda a bod Eluned wedi anfon ei hymddiheuriadau am beidio â bod yn bresennol yng nghyfarfod UKAF.
5. Aeth Charlie ymlaen wedyn i drafod ein gwaith ar gymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia, ac ailadroddodd gylch gwaith y GMC mewn perthynas â'r rolau hyn gan fod y gyfraith wedi mynnu ein bod yn eu rheoleiddio. Canmolodd Charlie y llythyr cefnogol ar y cyd a anfonwyd at Frank gan Grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cymru ar gymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia. Cyfeiriodd at ein gwaith ar yr Aseiad Trwyddedu Meddygol (MLA), a fydd, yn ei farn ef, yn galluogwr ar gyfer diwygio.
6. Noddodd ein hymddiheuriad LGBTQ+ ffurfiol am gymryd camau rheoleiddiol yn erbyn meddygon a oedd, mewn achosion hanesyddol, wedi cael eu dyfarnu'n euog dan gyfreithiau homoffobig sydd bellach wedi'u diddymu.
7. Daeth y fersiwn ddiweddaraf o Arfer meddygol Da 2024 i rym ar 30 Ionawr 2024. Diolchodd Charlie i'r aelodau am eu hymgysylltiad drwy gydol y camau ymgynghori a gweithredu.

8. Nododd hefyd fod ein ffocws ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf yn cyd-fynd ag athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus sy'n sail i Cymru Iachach, cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.
9. Cadarnhaodd Charlie y bydd y GMC yn defnyddio ein pwerau rheoleiddio i ddiogelu cyfleoedd hyfforddi i fyfyrwyr meddygol a meddygon dan hyfforddiant. Pwysleisiodd bwysigrwydd arweinyddiaeth ar draws y system i sicrhau amser wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddwyr ac unigolion dan hyfforddiant.

## Cyflwyniad gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol

10. Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau, Katie Laugharne Cyngorydd Cyswllt Cyflogwyr a Maria Chatters, Cyngorydd Cyswllt Rhanbarthol, yn rhoi cyflwyniad ar 'Creu diwylliannau agored a chefnogol'.
  - Myfyriodd Neil ar brofiadau meddygon yn y gweithle gan ddefnyddio gwybodaeth o'n hadroddiad 2024 ar Gyflwr Addysg ac Ymarfer Meddygol (SoMEP) sydd ar y gweill, a pham mae angen i ni sicrhau bod meddygon yn gweithio mewn amgylcheddau cefnogol a darparu rhai egwyddorion lefel uchel i atebion.
  - Bu Katie a Maria yn rhoi trosolwg o gymorth allgymorth yng Nghymru a'r gwaith rydyn ni'n ei wneud gyda meddygon ac arweinwyr yng Nghymru i wella diwylliannau a phrofiadau yn y gweithle, gan gyfeirio at: rheoli pryderon yn deg ac yn dosturiol; mwy o sesiynau cynefino i feddygon o dramor; grymuso meddygon ac arweinwyr i fynd i'r afael ag ymddygiad amhroffesiynol.

## Cyflwyniad allanol

11. Rhoddodd Dr Ruth Alcolado o Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG gyflwyniad ar weithredu'r Fframwaith Codi Llais heb Ofn ar gyfer unigolion dan hyfforddiant. Tynnodd Ruth sylw at y canlynol yn ystod ei chyflwyniad:
  - Eu bod yn cefnogi unigolion dan hyfforddiant ac yn gweithio'n agos gydag AaGIC, a bod ganddynt gyd-berchnogaeth ar y bwrdd sy'n edrych ar bolisiau, protocolau, hyfforddiant gwylwyr gweithredol, brysbennu ac ymchwiliadau.
  - Y broses Codi Llais heb Ofn, a'r angen i newid diwylliant er mwyn annog unigolion dan hyfforddiant i godi'u llais yn fwy cyson.
  - Yr angen i symleiddio ymchwiliadau hirfaith sy'n achosi'r niwed mwyaf i'r rhai sy'n mynd drwy'r broses.

## Trafodaeth Aelodau

12. Hwylusodd y Cadeirydd drafodaeth yn dilyn y materion a godwyd yn y cyflwyniad. Roedd themâu'r drafodaeth yn cynnwys:

- **Cefnogi staff i fynegi pryderon:** Nododd yr aelodau fod angen trafod codi llais heb ofn ar lefel bwrdd. Mae angen i uwch arweinwyr hyrwyddo codi llais a chael eu gweld yn gwneud hynny i gefnogi staff sy'n mynegi pryderon. Nodwyd y gall unigolion dan hyfforddiant hefyd fod ag ofn codi eu llais gan eu bod yn ofni y gallai effeithio ar eu cynnydd. Hefyd, codwyd mater unigolion dan hyfforddiant yn cael eu cylchdroi gan fod ymddygiad gwael yn cael ei symud ymlaen i'r Bwrdd Iechyd nesaf, yn hytrach na mynd i'r afael â'r mater. Nodwyd bod hwn yn fater diwylliannol ac y dylai'r rhai sy'n mynegi pryderon deimlo'n ddiogel i wneud hynny – dylai gael ei haddasu fel ei bod yn broses gadarnhaol.
- **Addasrwydd i ymarfer a phrosesau disgyblu:** Nododd yr aelodau y gall prosesau disgyblu fod yn niweidiol i'r rhai sy'n mynd drwyddynt, boed yn brosesau'r GMC neu'n brosesau lleol/cyflogwr. Trafododd yr aelodau'r angen am welliant parhaus i sicrhau bod prosesau'n deg ac yn dosturiol.
- **Sicrhau cefnogaeth ar gyfer Gofal Sylfaenol:** Nodwyd bod angen i ni edrych ar ôl meddygon teulu ac, fel aelodau o'r UKAF, edrych ar sut y gallwn eu cynnwys ymhellach. Nododd yr aelodau mai meddygon teulu yw'r grŵp lleiaf bodlon yn ôl data SoMEP. Mae gofal sylfaenol dan bwysau mewn nifer o Fyrddau Iechyd, gyda nifer uchel o gwynion gan y cyhoedd ynghylch cael gafael ar feddygon teulu.
- **Arweinyddiaeth ar y Cyd:** Nododd yr aelodau'r angen am arweinyddiaeth ar y cyd, sy'n cynnwys pob cydweithiwr, i fynd i'r afael â'r heriau parhaus a drafodwyd yn y cyfarfod.
- **Chwalu mythau:** Nodwyd bod angen herio camsyniadau ynghylch achosion addasrwydd i ymarfer a rôl a chylch gwaith y GMC. Mae hyn hefyd yn golygu ymgysylltu â myfyrwyr yn y brifysgol i feithrin gwell dealltwriaeth o'r GMC a'i brosesau.

13. Wrth grynhoi'r prif themâu a drafodwyd gan y Fforwm, tynnodd Charlie Massey sylw at y canlynol:

- Mae gwaith eto i'w wneud o ran chwalu mythau. Yn enwedig o ran sut yr ymdrinnir â chwynion. Mae angen egluro rôl a chylch gwaith y GMC mewn iaith glir a chryno.
- Mae angen rhoi sylw parhaus i degwch mewn prosesau disgyblu ac atgyfeirio grwpiau penodol yn anghymesur i brosesau ffurfiol.
- Bydd gwaith y GMC i gefnogi Graddedigion Meddygol Rhyngwladol (IMGs) yn parhau. Bydd tîm GMC Cymru yn gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG mewn cyswllt â chynefino a ffynonellau cymorth eraill.
- Y cyfle i weithio gyda Gweithrediaeth GIG Cymru i fynd i'r afael â'r pryder bod meddygon yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi, yn ogystal â diffinio beth mae'r term 'diwylliant' yn ei olygu'n ymarferol.
- Bod angen ymgysylltu â myfyrwyr yn y brifysgol i reoli eu disgwyliadau a'u dealltwriaeth o'r GMC a'i brosesau.
- Consensws ar yr angen i sicrhau bod unigolion sy'n codi eu llais yn teimlo'n ddiogel yn seicolegol; a herio ymddygiad gwael pan fydd achosion yn codi, yn ogystal â mynd i'r afael

â'r rhwystrau o ran gwneud hynny, gan nodi materion a godwyd ynghylch cylchdroi unigolion dan hyfforddiant fel enghraifft.

- Yr angen i aelodau UKAF fod yn uchelgeisiol wrth osod targedau. Cyfeiriwyd at dargedau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y GMC fel enghraifft yma. Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol i aelodau UKAF rannu newyddion yn y fforymau hyn am eu rhaglenni Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Yr angen i archwilio tensiynau pellach yng Nghymru rhwng dulliau dienw o godi llais a rhai lle enwir yr unigolyn. Gallai hyn arwain at anghysondeb rhwng systemau ar gyfer myfyrwyr meddygol, unigolion dan hyfforddiant a meddygon. Nid yw myfyrwyr meddygol yn cael eu hannog i adrodd yn ddiennw, sy'n groes i drefn y gweithle. Mae angen dod o hyd i gysondeb.
- Nododd Charlie Massey pa mor ddefnyddiol oedd clywed cydweithwyr Cymdeithas Feddygol Prydain yn trafod cyflogau a gweithredu diwydiannol. Nododd yr aelodau fod angen 'bod yn esgidiau pobl eraill', er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u pryderon.
- Yng Nghymru, rydyn ni'n gweld naws well a mwy adeiladol yn ystod dadleuon, strategaethau iechyd gwell a rhethreg gryfach nag mewn rhai manau eraill yn y DU. Mae cyfleoedd yng Nghymru y gall rhanddeiliaid eu dilyn drwy arweinyddiaeth ar y cyd.

14. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i rheini a oedd yn bresennol am eu cyfraniad at y trafodaethau.

15. Cynhelir cyfarfod nesaf Fforwm Cynghori'r DU ar 2 Hydref 2024.